# Eich Canllaw Cerddwyr Cŵn Gwyrdd®



Cadwch **Sir y Fflint** yn Daclus
Keep **Flintshire** Tidy

caru cymru

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

© Cyngor Falkirk

## Cyflwyniad

Mae'r Prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd (CCG) wedi bod yn rhedeg yn ardal Cyngor Falkirk ers mis Awst 2008. Sefydlwyd y prosiect gan Fenter Werdd Gymunedol Dunipace, yr Alban – mewn partneriaeth â Thîm Strategaeth Sbwriel Cyngor Falkirk. Dair blynedd yn ddiweddarach ac mae bron i 1,000 o bobl wedi gwneud addewid i ddod yn Gerddwyr Cŵn Gwyrdd yn ardal Falkirk.

Yn 2009, bu i Gyngor Falkirk greu cod masnach a thrwyddedu'r ymgyrch ac fe ddaeth ar gael mewn rhannau eraill o'r Alban a'r DU, oherwydd y galw amdano gan y cyhoedd.

Y gyfrinach i ymgyrch CCG llwyddiannus yw'r grwpiau gwirfoddolwyr a'r perchnogion cŵn sydd "ar lawr gwlad" yn rhedeg y stondinau addewid ac yn cael pobl i wneud yr addewid. Ar gyfer y grwpiau hynny y mae'r llyfryn hwn wedi'i roi at ei gilydd. Rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion a'r syniadau creadigol hyn o fudd i chi, rydym bob amser yn hoffi clywed gennych am eich ymgyrchoedd CCG eich hun, felly cofiwch gadw mewn cysylltiad. A chofiwch ADAEL OLION PAWENNAU YN UNIG!

## Sut mae'n Gweithio: Partneriaeth

Fel sy'n wir am bopeth, y mwyaf o egni y byddwch yn ei roi i'r ymgyrch, y mwyaf effeithiol y bydd yn dod!

**Partneriaethau rhwng Awdurdodau Lleol a Grwpiau Gwirfoddol**

Y sefyllfa orau yw bod grŵp gwirfoddol cymunedol yn gweithio law yn llaw â'u hawdurdod lleol. Mae'r grŵp yn darparu'r gwaith "ar lawr gwlad" i gael pobl i wneud yr addewid ac mae'r cyngor yn darparu'r cyllid ar gyfer cynhyrchu pamffledi addewid a hyrwyddo'r prosiect. Y gwirfoddolwyr cymunedol sy'n gosod y sylfaen ar gyfer cael pobl i wneud yr addewid, yn cynnal stondinau ym mhob digwyddiad a ffair gŵn y gallant ddod o hyd iddynt, yn ymgysylltu â phlant (ein llysgenhadon gorau!) i fod yn rhan o'r prosiect a chynnal arolygon baw cŵn ac ati i weld sut mae'n mynd.

**Mae Gwelededd Gweithredol yn Allweddol**

Mae'r prosiect yn gweithio orau mewn llefydd lle mae'r gwisgwyr fwyaf gweledol a gweithredol, mewn cymdogaethau lle mae'r gwirfoddolwyr wirioneddol yn chwarae eu rhan. Er enghraifft, yn Airth, yr Alban, mae'r ganolfan gymunedol a'r hyfforddwr cŵn lleol wedi gwneud yr addewid ac yn hapus i adrodd rhywbeth fel gostyngiad o 99% mewn pobl yn gadael baw cŵn ar lawr. Fe wnaethant ddweud wrthym eu bod bellach yn gallu cerdded o gwmpas Airth heb orfod cadw eu llygaid ar y llawr!

**Allgymorth Cymunedol - Ysgolion a Theuluoedd**

Rydym wedi canfod fod gweithio gyda grwpiau eco ysgolion cynradd yn llwyddiannus iawn - mae gan sawl ysgol lwybrau troed sydd â llawer o faw cŵn arnynt wrth ymyl yr ysgol ac maent yn mynd i'r afael â'r broblem gyda ni. Rydym yn symud y digwyddiad hwn i barc gwyrdd gwahanol bob blwyddyn ac yn cynnwys y grwpiau CCG amrywiol fel gwirfoddolwyr mewn cystadlaethau ystwythder cŵn, stondinau ar iechyd, ymddygiad, hyfforddwyr cŵn, ac ati.



## Proses Dau Gam

Athroniaeth yr ymgyrch yw mai'r cam cyntaf yw dechrau newid agweddau'r cyhoedd fel ei fod yn dod yn annerbyniol yn gymdeithasol i adael baw cŵn ar lawr; yr ail gam gobeithio fydd lleihau faint o faw cŵn sy'n cael ei adael ar lawr. Hyd yn hyn, mae cam un yn mynd yn dda iawn lle mae'r cerddwyr cŵn SYDD YN glanhau ar ôl eu cŵn yn barod i wneud yr addewid a gwisgo'r bandana, e.e. ar eu harddwrn, neu fod eu cŵn yn gwisgo'r logo Cerddwyr Cŵn Gwyrdd. Yn amlwg, bydd cam dau yn cymryd hirach ac yn gofyn am werthusiad pellach.



## Felly mae gennych chi becyn cymorth Cerddwyr Cŵn Gwyrdd - beth nesaf?

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu Pecyn Cymorth Cerddwyr Cŵn Gwyrdd i bob sefydliad cymunedol sy'n dod yn grŵp CCG swyddogol. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cyflenwad o bamffledi addewid a bagiau baw cŵn gwyrdd. Dylai arweinwyr y grŵp CCG gadw bag cefn neu fag mawr arnynt bob amser, sydd wedi'i bacio ac yn barod i fynd, ar gyfer y pethau bach. Hynny, gyda bwrdd symudol a baner, yw'r ffordd hawsaf o gerdded o'ch car i'r parc er mwyn gosod eich stondin. Os ydych chi'n cael stondin dan do ffurfiol, efallai byddwch eisiau ychwanegu bwrdd arddangos yn y cefndir gyda'ch deunyddiau cyhoeddusrwydd. Efallai y byddwch chi eisiau dechrau llyfr lloffion o'ch cyhoeddusrwydd a'ch lluniau a'i gael ar y stondin i bobl edrych drwyddo.

### Felly beth rŵan?

Mae cyfranogiad gweithredol yn allweddol i ymgyrch CCG llwyddiannus. Ni fydd yr ymgyrch yn "mynd yn fyw" os ydych chi'n gadael y cyflenwadau mewn cwpwrdd. Mae angen i chi gymryd y cam cyntaf a mynd allan i sefyll wrth lwybr cerddwyr cŵn, neu fynd i ffair ysgol neu unrhyw ddigwyddiad cymunedol lleol sy'n caniatáu stondinau ar gyfer achosion amrywiol - a dechrau siarad â phobl. Bydd y tudalennau canlynol yn rhoi awgrymiadau i chi ar sut i redeg ymgyrch a stondin addewid.



### Mae Ond yn Cymryd Dau....

Byddwch angen o leiaf llond llaw o wirfoddolwyr o'ch grŵp i gymryd tro i redeg y stondinau ac arddangos sut i wneud hynny i oedolion, pobl ifanc a phlant eraill yn eich cymuned sy'n cymryd rhan. Ond gallwch ddechrau gyda dim ond dau!

### Chwarae Rôl

Gallwch ymarfer chwarae rôl gyda'ch gilydd (ceisiwch gymryd tro yn bod yn wirfoddolwr sy'n rhedeg y stondin, y perchennog ci "da" cyfeillgar, y perchennog ci petrusgar, y perchennog ci blin, ac ati.) Ond y ffordd orau i ganfod sut i wneud hyn yw - drwy fynd allan a'i wneud! Ar ôl i chi redeg eich ail stondin addewid byddwch yn hen law arno.

**Gosodwch Dargedau** i gynnal o leiaf 3 digwyddiad bob blwyddyn. Gall digwyddiad fod yn stondin addewid bach ar fore dydd Sadwrn, cyflwyniad PowerPoint i ysgol leol, poster a/neu ymgyrch taflenni, colofn yn y papur newydd am Gerddwyr Cŵn Gwyrdd, digwyddiad Bark in the Park lleol bach, neu helpu gyda digwyddiad perchnogaeth cŵn da mwy wedi'i noddi gan eich awdurdod lleol neu grwpiau achub cŵn, sioeau cŵn ac ati. Mae diffiniad o "ddigwyddiad" yn ddiddiwedd, mae'n ffordd i gadw eich grŵp i feddwl am yr ymgyrch a chadw llygaid bob amser am leoliadau posibl ar gyfer cynnal stondin addewid neu gyfle i godi ymwybyddiaeth.

# Argymhellion ar sut i redeg ymgyrch Cerddwyr Cŵn Gwyrdd

**1. Y Rheol Bwysicaf yw "Byddwch yn Gyfeillgar!"**
Cofiwch yr addewid, i beidio byth â bod yn wrthdrawiadol pan fyddwch yn gwisgo'r rhwymyn braich. Y ffordd orau o fynd at rywun yw drwy ddechrau eich neges gyda "Rydym yn siarad â pherchnogion cŵn sy'n dda am godi baw eu cŵn fel y gallant helpu i ledaenu'r neges i'r rheiny sydd ddim cystal." Cymrwch fod yr unigolyn yr ydych chi'n siarad ag ef yn berchennog ci da a bydd y sgwrs yn mynd yn dda. Os byddwch yn mynd atynt mewn tôn sy'n dweud y drefn, ni fydd yn gwneud unrhyw les i'r sgwrs nac i neges gyffredinol y prosiect.

**2. Dymunwch Ddiwrnod Da Iddyn Nhw!**
Mae'r rhan fwyaf o bobl yn chwilfrydig, yn dangos diddordeb ac yn awyddus i wneud yr addewid. Fodd bynnag, os ydych chi'n gweld fod gan yr unigolyn yr ydych yn siarad ag ef neu'n mynd ato agwedd, yn wrthdrawiadol, yn flin neu'n dechrau rhoi rhesymau pam nad yw neu'n gallu codi baw ei gi, mae'n well i chi beidio ag ymgysylltu ag ef neu adael iddo ddwysau - bydd ganddynt wastad esgus arall. Arhoswch yn gyfeillgar, dymunwch ddiwrnod da iddynt - a symudwch ymlaen!

**3. Eich Llysgenhadon Ffyddlon**
Yn aml, ar ôl i ni egluro'r rhesymau dros gynnal y stondin, bydd yr unigolyn yn gwenu ac yn dweud "Rwyf eisoes yn glanhau ar ôl fy nghi," ac yn dechrau gadael gan nad yw'n meddwl fod CCG yn berthnasol iddo. Mae'n bwysig iawn, ar yr adeg hon, i ddweud, "Ia, a dyna pam rydym angen i chi neu eich ci wisgo'r bandana. Gallwch ei wisgo ar eich arddwrn os yw hynny'n well gennych. Bydd eich ci yn edrych yn dda yn ei wisgo" neu "Ia, i'r perchnogion cŵn DA yr ydym ni'n gofyn iddynt wneud yr addewid, oherwydd y gallwch fod yn batrwm ymddwyn da i eraill." Fel arfer, byddant yn stopio ar y pwynt hwn ac yn gwneud yr addewid. Peidiwch â gadael i'r cerddwyr cŵn da hyn gerdded i ffwrdd, nhw yw'r union bobl yr ydych chi eisiau iddynt wneud yr addewid. Nhw yw eich llysgenhadon, sy'n helpu i newid agweddau pobl drwy arwydd dieiriol y bandana. Peidiwch â phoeni am geisio perswadio pobl sydd ddim yn codi baw cŵn i ddod drosodd i'ch ochr chi. Byddant yn gwneud hynny yn nes ymlaen. I ddechrau, dechreuwch gyda'r rhai sy'n fodlon i'w cŵn wisgo'r bandana, i helpu gyda rhoi rhywfaint o bwysau gan gyfoedion.

**4. Dosbarthu Pamffledi Addewid**
Trefnwch eich bod yn gadael dalwyr cardfwrdd ar gyfer cadw pamffledi addewid mewn llefydd cyhoeddus yn eich cymuned fel llyfrgelloedd, siopau un alwad, y milfeddyg, siopau anifeiliaid anwes, busnesau harddwch cŵn, enelau cŵn, dosbarthiadau hyfforddi cŵn ac unrhyw fusnesau sy'n cytuno i'w cadw ar y cownter.

**5. Mae Milfeddygon yn Adnoddau Gwych!**
Efallai y bydd milfeddygon yn hapus i gynnwys pamffledi mewn unrhyw "becynnau cŵn bach" y maent yn eu dosbarthu i gleientiaid y tro cyntaf y byddant yn mynd â'u ci bach newydd am ei frechiadau. Neu efallai y byddant yn fodlon sôn am y prosiect a rhoi taflenni allan i'w holl gleientiaid. Rydym wedi canfod bod milfeddygon yn barod iawn i gymryd rhan yn y prosiect fel hyn. Os oes gennych chi newyddlen y byddwch yn cyhoeddi gwybodaeth am Gerddwyr Cŵn Gwyrdd ynddi, gofynnwch i'ch milfeddyg ysgrifennu erthygl am y peryglon iechyd sy'n gysylltiedig â pheidio â chodi baw cŵn yn gyfnewid am hysbyseb bach am ddim yn eich papur.

## Pecyn Cymorth Sylfaenol

- Bwrdd symudol bach, 1 neu 2 gadair neu stôl
- Baner awyr agored (peidiwch ag anghofio clymau!)
- Baner codi dan do, beiros
- Cardiau busnes
- Bisgedi cŵn
- Powlenni dŵr a photeli dŵr
- Bagiau baw cŵn
- Eich ci masgot
- Cyhoeddiadau a phamffledi eich awdurdod lleol (ar gyfreithiau a gorfodaeth yn ymwneud â baw cŵn ac ati.)
- Mae gasebo yn wych os oes gennych chi un!



# Argymhellion ar sut i redeg ymgyrch Cerddwyr Cŵn Gwyrdd

**6. Rhwydweithio Wyneb yn Wyneb**
Y ffordd orau o ddosbarthu pamffledi yw trwy wneud hynny wyneb yn wyneb, un i un. Mae hyn oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i chi gael sgwrs, canfod mwy am y mannau problemus yn eich cymuned, ym mhle y mae angen biniau, gwybodaeth am y rhai sy'n troseddu dro ar ôl tro y gallwch ei basio ymlaen i'ch warden cŵn neu'ch tîm diogelwch cymunedol, ac mae'n ffordd o ddenu mwy o wirfoddolwyr i helpu eich grŵp. Rhwydweithiwch, rhwydweithiwch, rhwydweithiwch!

**7. Cardiau Busnes**
Ewch ati i greu cardiau busnes gyda logo Cerddwyr Cŵn Gwyrdd arnynt (neu dim ond olion pawennau gwyrdd) a gwybodaeth gyswllt eich grŵp. Mae hyn yn eich helpu i ledaenu'r neges lle bynnag yr ydych ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl gysylltu â chi am bamffledi yn nes ymlaen. Maent yn bethau defnyddiol iawn i'w cael yn eich poced pan fyddwch yn cerdded eich ci hefyd, os byddai rhywun yn digwydd gofyn i chi am y bandana. Fel arall, gwnewch yn siŵr fod gennych bamffled neu ddau yn eich poced neu'ch bag bob amser.

**8. Gosodwch Stondin Cerddwyr Cŵn Gwyrdd Pryd Bynnag a Lle Bynnag y Gallwch**
Mae bore dydd Sadwrn wrth ymyl eich llwybr cerdded cŵn mwyaf poblogaidd neu yn y parc, ffeiriau lleol, yn cynnwys ffeiriau ysgol (rydym yn gosod y stondin y tu allan i brif fynedfa'r ysgol), yn ffordd wych o siarad â phobl sydd eisoes wedi ymlacio ac yn barod i dderbyn ac yn aml bydd ganddynt eu ci gyda nhw. Meddyliwch am ffyrdd creadigol y gall eich stondin gyd-fynd â thema'r ffeiriau. Er enghraifft, rydym wedi cyfuno Cerddwyr Cŵn Gwyrdd gyda stondinau gwrth-sbwriel mewn ffair "iechyd ac iechyd meddwl", gyda'r syniad bod y sbwriel yn ddigalon a bod digwyddiadau glanhau yn ymarfer da, yn cynnwys delio â baw cŵn; mewn ffair treftadaeth o dan y cysyniad bod ein mannau gwyrdd yn rhan o'n treftadaeth a bod angen i ni ofalu amdanynt, yn cynnwys codi baw cŵn. Lleoliadau amlwg eraill ar gyfer cynnal stondinau yw sioeau cŵn, digwyddiadau Bark in the Park ac ati. (Gweler "Sut i Redeg Stondin Addewid Cerddwyr Cŵn Gwyrdd")

**9. Y Cyfryngau**
Gallwch "lansio" eich prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd trwy ffonio eich papur newydd lleol neu newyddlenni i gael ffotograffydd yno ar gyfer eich stondin gyntaf, i gyhoeddi bod eich grŵp cymunedol wedi cymryd y prosiect ymlaen. Gallwch gynnwys aelod o'ch awdurdod lleol os ydych yn dymuno ac mae bob amser yn dda os ydych yn cynnwys ychydig o gŵn ar dennyn yn y llun. Fodd bynnag, mae profiad wedi dangos fod angen cadw dau beth mewn cof: os byddwch yn cynnwys gwirfoddolwyr cŵn, rhybuddiwch eu perchnogion efallai na fydd y llun rydych wedi'i obeithio amdano yn gorffen i fyny yn y papur (nid oes gennych chi unrhyw reolaeth dros ba benderfyniadau golygyddol sy'n cael eu gwneud). Hefyd, peidiwch â dod â chŵn sy'n anghyfeillgar i gŵn eraill i'r sesiwn tynnu lluniau (neu'r stondin addewid). Nid yw'n beth da cael cŵn yn cwffio â'i gilydd ar gyfer digwyddiad cyhoeddusrwydd!

**10. Colofnau Cerddwyr Cŵn Gwyrdd**
Ceisiwch gynnwys colofn neu dudalen Cerddwyr Cŵn Gwyrdd rheolaidd yn newyddlen a/neu ar wefan eich grŵp, ac unrhyw newyddlen/gwefan a fydd yn eich derbyn! Cofiwch, cadwch y cynnwys yn gyfeillgar a heb fod yn wrthdrawiadol!

**11. Cofiwch Gynnwys y Plant**
Rydym wedi canfod bod plant yn frwdfrydig iawn am y prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd. Cadwch degan ci wrth eich stondin addewid fel "masgot" i gael eu sylw (cynhaliodd un grŵp eco mewn ysgol stondin addewid mewn ffair ysgol; daeth bob plentyn â thegan ci gyda nhw a'u harddangos ar y stondin. Roedd yn wych i gael eu sylw!). Bydd y plant yn heidio atoch ac eisiau enwi'r masgot ac yn y diwedd yn eich helpu chi ar y stondin. (Gweler "Plant, Eich Cynghreiriaid Gorau".) Yn aml mae plant ar fin cael eu ci bach cyntaf ac mae'n hawdd i'w darbwyllo i "ddechrau ar y trywydd iawn" drwy wneud yr addewid ymlaen llaw. Gall Brownies ennill bathodynnau drwy helpu gyda'r prosiect. Siaradwch ag athro/athrawes eco eich ysgol am fwy o ffyrdd creadigol i gynnwys y plant yn y stondinau addewid, cystadlaethau poster, arolygon baw cŵn, addysgu'r oedolion ac ati. Bydd grŵp eco'r ysgol yn aml yn "ei gymryd ac yn rhedeg gydag ef", gan adael dim llawer mwy i chi ei wneud na chyfrif ffurflenni addewid!

**12. Byddwch yn Gyfeillgar**
Gwnewch yn siŵr fod unrhyw gyfathrebu sy'n mynd allan o dan y logo bob amser yn nhôn cyfeillgar a di-wrthdaro'r prosiect. Er enghraifft, ni fyddai'n cael ei ddefnyddio i bostio hysbysiadau a oedd yn ymwneud yn gyfan gwbl â gorfodaeth neu grŵp cymdogaeth yn dweud y drefn wrth unrhyw unigolyn am eu harferion baw cŵn, ac ati. Dyma ddim ond rhai ffyrdd yr ydym wedi hyrwyddo'r prosiect o'r dechrau. Mae rhai newydd bob amser yn codi a byddwch yn meddwl am rai eich hunain. Byddem yn gwerthfawrogi os allwch chi rannu unrhyw syniadau hyrwyddo yr ydych chi'n eu defnyddio sydd wirioneddol yn gweithio gyda ni fel y gallwn barhau i gynghori holl arweinwyr y prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd o unrhyw syniadau newydd creadigol. Mae croeso i chi bob amser ffonio prosiect Cadwch Sir y Fflint yn Daclus Cyngor Sir y Fflint am gyngor neu gymorth.

# Argymhellion ar sut i redeg stondin addewid Cerddwyr Cŵn Gwyrdd

**1. Caniatâd**
Ar gyfer stondin ar ochr llwybr, efallai y bydd angen i chi ganfod pwy sy'n berchen ar yr eiddo lle'r ydych chi'n dymuno cael eich stondin. Rheolwyr siop groser, y cyngor, perchnogion tir ac ati. Unwaith y byddwch wedi mynd drwy'r broses hon y tro cyntaf, bydd yn mynd yn haws.

**2. Yswiriant**
Os ydych chi'n grŵp sefydledig, heb amheuaeth bydd gennych chi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae'n syniad da pan fyddwch yn cymysgu cŵn, plant a dieithriaid mewn stondin. Os nad ydych chi wedi'i gael eto, edrychwch i mewn iddo. Os yw eich grŵp yn gwneud gwaith amgylcheddol, codi sbwriel a chymryd rhan yn y prosiect CCG, efallai byddwch yn gymwys ar gyfer ymuno â BTCV am ffi fach ac yna'n gymwys ar gyfer eu hyswiriant atebolrwydd cyhoeddus am bris rhesymol. www2. btcv.org.uk

**3. Diogelwch a Hwyl mewn Niferoedd**
Nid yw stondin CCG yn gweithio'n iawn gyda dim ond un person yn ei redeg (rydym yn gwybod hyn o brofiad!). Ewch mewn parau bob amser. Mae'n fwy cyfeillgar ac mae pobl yn fwy tebygol o ddod i siarad â chi a gwneud yr addewid os ydych chi eisoes yn "weithredol" drwy siarad gyda'ch partner neu'ch plentyn neu berson ifanc. Efallai bod un ohonoch chi wedi dod â'ch ci neu gi bach (cyfeillgar sydd wedi'i gymdeithasu) gyda chi - mae'r pethau hyn yn helpu i gadw'r awyrgylch yn gyfeillgar ac yn ysgafn. Nid yw cael un person yn eistedd ar ei ben ei hun yn edrych yn groesawgar iawn – a rhag ofn i chi gael un o'r cwsmeriaid gwrthdrawiadol prin hynny, mae'n well cael rhywun arall gyda chi wrth gefn.

**4. Byddwch yn Enghraifft Dda**
Gwisgwch eich bandana wrth redeg y stondin.

**5. Peidiwch ag Eistedd yn Gwneud Dim!**
Efallai y bydd pobl yn amharod i ddod at eich stondin i ddechrau - efallai eu bod yn meddwl eich bod yn trio gwerthu rhywbeth neu'n mynd i ddweud y drefn wrthynt. Cymerwch un o'r pamffledi ac ewch atynt wrth iddynt nesáu at yr ardal, gofynnwch a allwch chi roi mwythau i'w ci, gofynnwch beth yw enw'r ci, siaradwch, byddwch yn gyfeillgar. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r geiriau hud, "Rydym yn gofyn i berchnogion cŵn cyfrifol i'n helpu ni i newid agweddau perchnogion cŵn anghyfrifol am faw cŵn." Os byddwch yn cymryd eich bod yn siarad â pherchennog ci cyfrifol o'r dechrau, bydd y ddeialog yn mynd yn llawer gwell - fel nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu harwahanu neu'n cael rhywun yn dweud y drefn wrthynt. Cynigwch iddynt fynd ag un o'r pamffledi adref gyda nhw i feddwl amdano ac yna ychwanegwch, fel arall, gallant wneud yr addewid rŵan fan hyn a chael eu bandana trwy'r post heddiw. Peidiwch â rhoi dim pwysau arnynt, rhowch opsiynau.

**6. Atyniadau**
Ar gyfer stondinau awyr agored lle mae pobl yn debygol o gerdded heibio gyda'u cŵn, cadwch fowlen ddŵr a photel ddŵr ar y llawr yn ogystal â basged o fisgedi cŵn ar y bwrdd (bydd yr arogl yn denu'r cŵn at eich bwrdd). Hefyd, dewch â chyflenwad o fagiau baw cŵn gyda chi - bydd pobl yn dod i siarad â chi dim ond i gael bagiau baw cŵn am ddim ac wedyn gallwch ofyn iddynt wneud yr addewid. Gwnewch i'ch bwrdd edrych yn hwyl ac yn gyfeillgar.

**7. Rhannu Gwybodaeth**
Byddwch yn canfod pethau pwysig a gallwch rannu gwybodaeth ddefnyddiol ar y stondin. Mae dweud wrth bobl lle i fynd i gael eu cyflenwad rheolaidd o fagiau baw cŵn am ddim yn bwysig, mae siarad am y gyfraith yn ddefnyddiol. Os ydynt eisiau trafod y diffyg biniau mewn ardal benodol, cymerwch nodiadau fel y gallwch godi hyn gyda'ch awdurdod lleol yn nes ymlaen. Gallant hefyd dweud wrthoch chi am fannau poblogaidd eraill yn y dref lle efallai y byddwch eisiau cynnal eich stondin.

Cymrwch nodiadau!



## Stondin Ffurfiol

Mae'r math cyntaf o stondin yn un mwy ffurfiol, mae'n rhywbeth yr ydych chi'n ei gynllunio ymlaen llaw pan fyddwch yn cael gwahoddiad, neu eich gofyn i fod yn rhan o ddigwyddiad arall fel Bark in the Park, sioe gŵn, ffair gymunedol, ffair ysgol ac ati. Ynghyd â phamffledi, gall gynnwys bwrdd arddangos gyda lluniau o ymgyrch CCG eich awdurdod lleol a'ch casgliad eich hun o luniau o'ch digwyddiadau Cerddwyr Cŵn Gwyrdd eich hun (cofiwch dynnu luniau bob amser!). Cadwch lyfr lloffion neu gyflenwad o'ch cyhoeddusrwydd a lluniau ac ati, fel y byddwch bob amser yn barod i osod eich arddangosfa.

# Argymhellion ar sut i redeg stondin addewid Cerddwyr Cŵn Gwyrdd

**8. Plant**
Eich arf a'ch cynghreiriaid gorau yw plant! Mae plant wrth eu bodd gyda stondinau CCG, byddant yn eich helpu i siarad â phobl a mwytho eu cŵn. Gwnewch yn siŵr bod gennych fasgot tegan ci - un ai un gwyrdd (gallwch gael un ar ebay) neu un y gallwch roi bandana gwyrdd arno. Mae plant yn cael eu denu i siarad am y masgot, i roi enw iddo, i'w fabwysiadu (ond peidiwch â gadael iddynt fynd ag ef adref gyda nhw!). Bydd hyd yn oed oedolion yn stopio i wneud hwyl gyda chi am y masgot. Gall Brownies ennill bathodynnau am eich helpu i redeg y stondin. Gall gosod eich stondin wrth y llwybr sydd â llawer o faw cŵn arno wrth ymyl eich ysgol gynradd helpu i annog y disgyblion hefyd. Efallai y byddwch yn eu cynnwys mewn cynnal arolygon baw cŵn ar yr un diwrnod â'ch stondin.

**9. Pecyn Cymorth**
Y pethau sylfaenol sydd eu hangen arnoch ar gyfer cynnal eich stondin wrth ochr llwybr yw: bwrdd bach, cadeiriau, baner, pamffledi, beiros, cardiau busnes, bisgedi cŵn, powlen ddŵr a photeli dŵr, bagiau baw cŵn, eich masgot ci, cardiau'r cyngor a phamffledi am gyfreithiau baw cŵn ac ati. Rydym yn gweld mai cael bag cefn ar gyfer y pethau bach a bwrdd symudol bach yw'r ffordd orau i gerdded o'ch car i barc er mwyn gosod y stondin yn hawdd. (Os ydych chi'n cynnal stondin dan do ffurfiol, efallai byddwch chi eisiau ychwanegu bwrdd arddangos yn y cefndir gyda'ch deunyddiau cyhoeddusrwydd. Efallai byddwch chi hefyd eisiau dechrau llyfr lloffion o'ch cyhoeddusrwydd a'ch lluniau, a'i gael ar y stondin i bobl edrych drwyddo.)

**10. Cyhoeddusrwydd**
Meddyliwch am eich stondin fel digwyddiad aml-bwrpas – nid yn unig i gael pobl i wneud yr addewid ond i ddod â mwy o sylw i'r ymgyrch a helpu i addysgu mwy a mwy o bobl. Ceisiwch gael lluniau o'ch stondin, a chael y lluniau yn y papur newydd neu newyddlenni, gofynnwch a fyddai modd i ffotograffydd y papur newydd lleol fynychu'r digwyddiad ac ati. Gyda chyhoeddusrwydd fel yna, y tro nesaf y bydd pobl yn gweld eich stondin yn y parc, byddant yn gwybod mwy am bwy ydych chi a bydd ganddynt fwy o ddiddordeb i ddod i siarad â chi. Sefydlwch flog am eich ymgyrch, ewch ar wefannau sgwrsio a byrddau neges sy'n ymwneud â chŵn os ydych chi'n un da ar y cyfrifiadur, dywedwch wrth bobl am yr ymgyrch!

**11. Pethau Cyfreithiol**
Caniatâd gan berchnogion eiddo, trwyddedau'r cyngor, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, datgeliadau os oes gennych chi blant yn gweithio ar y stondin gyda chi ac ati. Byddwch yn ymwybodol o'r pethau hyn, ticiwch yr holl focsys! Ar gyfer eich diogelwch eich hun ac fel nad yw'r prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd, yn gyffredinol, byth yn cael enw drwg!

**12. Cŵn ar y Stondin**
Gall helpu i gael ci neu gi bach cyfeillgar gyda chi ar stondinau awyr agored. Ond gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod bod y ci sy'n dod gyda chi yn llysgennad da a byddwch yn barod i symud y ci o'r stondin pe bai unrhyw wrthdaro yn codi rhwng y ci a chi arall. Peidiwch â dod â chi sy'n gallu bod yn ymosodol gyda chŵn eraill - nid oes unrhyw bwynt i chi osod eich stondin gyda chi gwarchod arno! Byddwch yn ofalus os ydych chi'n gosod eich stondin wrth ymyl llwybr cerddwyr cŵn, peidiwch â rhwystro'r llwybr i gerddwyr eraill, gosodwch eich stondin ar yr ochr fel y gallant fynd heibio. Peidiwch â gorfodi eich presenoldeb arnynt, na'ch ci. Byddwch yno iddynt os ydynt eisiau galw heibio. Byddwch yn gyfeillgar, cwrtais ac ymwybodol drwy'r amser.

**13. Baneri**
Mae baner Cerddwyr Cŵn Gwyrdd yn rhywbeth defnyddiol iawn i'w gael. Gallwch ofyn i gwmni greu un i chi ar ebay am tua £35, baner chwe troedfedd a fydd yn para llawer o dymhorau ym mhob tywydd. Os hoffech chi fwy o wybodaeth am gyflenwyr, neu os ydych chi angen logo neu waith celf, anfonwch e-bost at: keepflintshiretidy@flintshire.gov.uk. Os ydych chi angen cymorth, cyngor neu os oes gennych chi syniadau gwych eraill i'w rhannu â ni ynglŷn â chynnal stondinau,
cysylltwch â ni!



# Stondin ar Ochr Llwybr

Yr ail fath o stondin yw stondin "ar ochr llwybr", y gallwch chi ei gosod yn anffurfiol, yn syth, ar hap neu drwy wneud galwad ffôn sydyn i berchennog yr eiddo i gael caniatâd. Neu efallai y byddwch yn creu amserlen i redeg stondin ar ochr llwybr bob dydd Sadwrn am fis, gan fynd i barciau gwahanol yn eich cymuned. Gosodwch y stondinau hyn wrth ymyl llwybrau cerdded cŵn yn y parc, wrth ymyl canolfannau gweithgareddau (yr amser gorau yw bore dydd Sadwrn am ychydig o oriau), wrth ymyl llyfrgelloedd, mynedfeydd i siopau groser (lle mae pobl yn aml yn gadael eu cŵn), wrth ymyl llwybrau troed lle mae problem benodol ac ati. Rydym yn ceisio eu gosod mewn lleoedd gwahanol bob tro, i gael pobl wahanol i wneud yr addewid ac er mwyn rhoi sylw newydd i'r prosiect.

## Plant, Eich Cynghreiriaid Gorau

Mae ymgysylltu â phlant yn rhan bwysig o ymgyrch newid agweddau Cerddwyr Cŵn Gwyrdd am ddau reswm: (1) nhw yw ein perchnogion cŵn ar gyfer y dyfodol a byddant yn mynd â neges CCG gyda nhw ar gyfer eu bywyd fel oedolion, a (2) byddant yn mynd i'r afael â'r broblem gyda brwdfrydedd a chreadigrwydd.

Gan fod y broblem ynglŷn â baw cŵn yn un afiach a gan fod gan yr ymgyrch Cerddwyr Cŵn Gwyrdd logo “masgot” ci, byddwch yn gweld eu bod yn awyddus i helpu.

Trwy grŵp/athro/athrawes eco'r ysgol, ceisiwch eu cynnwys mewn dylunio posteri, arolygon baw cŵn, cyflwyniadau, llythyrau i'r golygydd ac ati.

Gall ymgyrch CCG dynnu sylw at fannau baw cŵn penodol wrth ymyl dir yr ysgol (mae llawer o ysgolion cynradd yn cael problemau difrifol gyda baw cŵn ar y llwybr wrth ymyl yr ysgol, gan fod rhieni yn aml yn cerdded eu plant i'r ysgol gyda'u cŵn).

Gall aelod brwdfrydig o'ch grŵp CCG drefnu i siarad yng ngwasanaeth yr ysgol - efallai cydweithio gyda swyddog diogelwch cymunedol neu filfeddyg i helpu i siarad am orfodaeth, dirwyon, risgiau iechyd - fel ffordd gychwynnol o ymgysylltu â'r plant.

Ewch i grŵp rhieni'r ysgol a gweld os byddant yn fodlon cymryd rhan yn yr ymgyrch, drwy osod stondin addewid mewn ffair ysgol. Gwnewch ychydig o chwarae rôl gyda thîm o blant (mae cael 4 i 6 yn dda, efallai o'r grŵp eco) ar sut i redeg stondin addewid, gan adael i'r plant gymryd tro i gogio bod yn berchnogion cŵn da a drwg.

Yna gadewch i'r plant redeg y stondin addewid yn ffair y gwanwyn a/neu Nadolig yr ysgol. Mae cael rhywun i wisgo fyny fel ci yn syniad da – mae hefyd yn wych gofyn i'r plant ddod â'u teganau cŵn gyda nhw o gartref i'w harddangos ar y stondin yn gwisgo rhwymynnau breichiau a choleri. Gall cymryd rhan yn yr ymgyrch hefyd helpu eich ysgol i gael ei Baner Werdd.

## Rysáit ar gyfer Creu Baw Ci Ffug

I ddramateiddio'r broblem, mae plant wrth eu bodd yn gwneud baw ci ffug ar gyfer y lluniau. Gallwch ddod o hyd i ryseitiau ar y rhyngrwyd. Dyma un dull syml yr ydym wedi'i ddefnyddio.

**Rysáit:**

- Siocled y gellir ei daenu
- Menyn pysgnau (cnapiog)
- Baw gyda darnau o laswellt / dail wedi'i gymysgu ynddo
- Cymysgwch y cynhwysion nes i chi gael y trwch cywir. (Peidiwch â chymysgu gormod neu bydd y siocled yn mynd yn rhy ddiferllyd.)
- Rhowch ef mewn bag rhewgell, torrwch dwll un fodfedd yng nghornel y bag a gwasgu'r baw ci ffug allan i mewn i siapiau.


**Gwnewch yn siŵr bod goruchwyliaeth gan oedolyn bob amser a glanhewch y llanastr ar ôl tynnu'r lluniau.**

**Peidiwch â'i adael yn rhywle y gall cŵn ei fwyta - mae siocled yn wenwynig i gŵn.**

**Cadwch nhw oddi wrth blant bach.**

**Rhybudd: fe allai staenio dodrefn.**



# Monitro / Gwerthuso

Rhan o'ch cyfrifoldeb fel grŵp sy'n cymryd rhan yn y prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd yw cynnal arolygon a gwerthusiadau. Nid yw hyn mor feichus ag yr ydych yn meddwl, ac os ydych chi'n cynnwys y plant, gall fod yn hwyl yn ogystal ag addysgiadol. Cofiwch, efallai bod yr arolygon yn ymddangos yn wirion ond maent yn bwysig iawn!

**Arolwg Cyntaf:** Dewiswch ardal neu grŵp o ardaloedd y byddwch chi'n eu monitro dros y flwyddyn nesaf, lle'r ydych yn gwybod fod llawer o bobl yn cerdded eu cŵn. Parciau, mannau gwyrdd, strydoedd cyfagos ac ati. Wrth i chi lansio eich prosiect Cerddwyr Cŵn Gwyrdd yn gyntaf - un ai cyn neu o gwmpas yr un amser ag yr ydych yn dechrau cael pobl i wneud yr addewid - cyfrwch faint o faw cŵn sydd wedi'i adael o gwmpas a chofnodwch y canlyniadau. Yna gwnewch siart i gofnodi'r nifer a'r dyddiad. Ceisiwch gynnwys gwirfoddolwyr eraill mewn cymdogaethau eraill a gallwch gynnal arolygon mewn rhannau gwahanol o'ch tref.

**Yr Ail Arolwg:** Chwe mis yn ddiweddarach, cerddwch ar hyd yr un ardal a gwnewch gyfrifiad arall. Adiwch y rhifau a'r dyddiadau hynny i'ch siart, er mwyn eu cymharu â'r sefyllfa chwe mis yn ôl.

**Arolwg Terfynol:** Chwe mis yn ddiweddarach, gwnewch hyn eto. Rŵan mae gennych chi arolwg o gyn i'ch ymgyrch ddechrau, yn ystod yr ymgyrch ac ar ddiwedd cynllun peilot y flwyddyn gyntaf.

Peidiwch â digalonni os yw'r canlyniadau yn dangos llai o lwyddiant nag yr oeddech chi wedi'i obeithio i ddechrau; ar y llaw arall, os ydynt yn dangos "llwyddiant" gwych a chyflym, peidiwch â chynhyrfu'n ormodol! Gall sawl ffactor effeithio ar y canlyniad, fel y tywydd, a yw pobl yn cerdded ardaloedd penodol yn fwy neu'n llai aml oherwydd yr oriau golau dydd sydd ar gael ac ati. Bydd yn cymryd o leiaf blwyddyn i weld sut fydd y canlyniadau'n edrych "ar lawr gwlad".

Rhan arall o'r arolwg yw monitro casgliadau biniau gwastraff cŵn. Bydd angen i chi weithio gyda'ch Awdurdod Lleol ar gyfer y rhan hwn. Ceisiwch greu amserlen gyda nhw i'r cyngor gynnal arolygon ar ddefnydd y biniau baw cŵn yn yr ardal yr ydych chi'n cynnal yr ymgyrch. Gobeithio y byddwch chi'n gweld bod y biniau'n cael eu defnyddio'n fwy aml, sy'n ddangosydd da! Gallwch drefnu bod yr arolygon hynny'n cael eu cynnal bob mis neu bob chwarter, beth bynnag sydd orau gennych. A chadwch gofnod o hyn hefyd. P'un ai'r awdurdod lleol neu ffynhonnell ariannu arall ydyw, ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf efallai bydd gofyn i chi adrodd ar ganlyniadau'r prosiect CCG. Gall yr arolygon hyn fod yn ddefnyddiol iawn i chi o ran darparu dangosyddion gwirioneddol o lwyddiant.

**Holiaduron:** Rhan arall o'r arolwg/dadansoddiad yw anfon holiaduron i'r rheiny sy'n gwneud yr addewid. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud hyn chwe mis ar ôl i'r prosiect ddechrau ac eto ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn hapus i roi sampl o holiadur yr arolwg i chi, anfonwch e-bost at keepflintshiretidy@flintshire.gov.uk.

**Cynnwys y Plant:** Rhai ffyrdd y gwnaethon y sesiwn cyfri baw cŵn yn hwyl, wrth helpu i ddogfennu a darparu deunyddiau gweledol ar gyfer ein harddangosfeydd mewn stondinau, a'n llyfr lloffion:

Rydym yn gweld fod plant yn mwynhau helpu gyda'r rhan yma o'r swydd. Bu i ni brynu rhywfaint o rifyddion golff oddi ar ebay - yn rhad iawn - a mynd â rhywfaint o blant ar daith gyda ni ar hyd y llwybrau cerdded cŵn. Cadwch lygaid ar eu cyfrifo, gwnewch yn siŵr nad ydynt yn mynd dros ben llestri wrth fwynhau sŵn clicio'r rhifyddion! Gwnewch yn siŵr eu bod yn clicio dim ond os ydynt yn gweld baw ci.

**Baneri:** Gwnewch gyfres o faneri (rydym yn defnyddio logo CCG wedi'i lamineiddio a'i atodi i ffyn gardd gwyrdd hir) a dewch o hyd i ardal sydd â llawer o faw cŵn ar y llawr. Gofynnwch i'r plant osod y baneri yn y tir wrth ymyl y baw ci (ond nid ynddo!). Tynnwch lun i ddangos pa mor ddramatig ydyw! Ar ôl chwe mis, gwnewch hyn eto yn yr un lle, i weld a oes unrhyw welliant neu i ddangos i bobl ei fod yn dal yn ddrwg a bod angen iddynt wneud rhywbeth amdano!

**Paent neu dywod lliw:** Mae gan rai ysgolion broblemau mawr gyda baw cŵn ar y llwybrau troed wrth ymyl eu hysgol. Mae eu grwpiau eco wedi arwain prosiectau lle mae'r plant wedi helpu pobl i weld pa mor ddrwg ydoedd yn defnyddio paent chwistrell (bioddiraddadwy).

**Baw Ci Ffug:** Mae plant wrth eu bodd yn gwneud Baw Ci Ffug a gall fod yn ddefnyddiol iawn i ddramateiddio'r sefyllfa heb weithio'n agos at y "peth go iawn".

**Os ydych chi'n meddwl am ffyrdd hwyl a chreadigol eraill o gynnwys y plant yn y gwaith o gyfrifo baw cŵn, rhowch wybod i ni!**

## Rydym yn agored i syniadau wrth iddynt ein cyrraedd, ac yn dilyn y canllawiau syml hyn:

**Gwaith Tîm!**
Mae cydweithio gyda gwasanaethau, asiantaethau a grwpiau eraill yn helpu i ehangu'r ymgyrch fel eich bod yn cyrraedd mwy a mwy o bobl. Meddyliwch am ffyrdd i gynnwys eraill a byddwch yn ymatebol i'w gwahoddiadau!

**Gwrandewch ar Beth Mae'r Bobl Eisiau!**
Os oes rhywbeth yr hoffech chi fel llysgennad ei wisgo i hyrwyddo CCG, rhowch wybod i ni! Mae perchnogion cŵn yn caru eu "hoffer cŵn" a gall eu cŵn fod yn llysgenhadon hefyd!

**Cydnabyddwch eich Gwirfoddolwyr!**
Meddyliwch am ffyrdd o ysgogi a diolch i'ch gwirfoddolwyr am yr amser a'r egni y maent yn ei roi i gael pobl i wneud yr addewid!

**Cadwch Synnwyr Digrifwch yn yr Ymgyrch!**
*"Wedi'i hyfforddi'n gywir, gall dyn fod yn ffrind gorau i gi."*
Corey Ford






## Adnoddau

**Mae'r gwefannau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am yr Ymgyrch Cerddwyr Cŵn Gwyrdd a Thrwyddedu i Awdurdodau Lleol:**

www.falkirk.gov.uk/greendogwalkers
www.cgiscotland.org Tudalen Cerddwyr Cŵn Gwyrdd (gellir cael mynediad at y cyhoeddiad chwarterol o 'New Leaf News' ar wefan y Fenter Werdd Gymunedol hefyd, sy'n cyhoeddi erthyglau a chyhoeddiadau CCG yn rheolaidd).
www.cgiscotland.org/Page/green_dog_walkers.html (Clip Fideo o Crufts TV)

## Cofrestrwch ar gyfer eich ymgyrch Cerddwyr Cŵn Gwyrdd lleol yn:

https://siryfflint.gov.uk/cerddwyrcwngwyrdd

Dywedwch wrthym sut hwyl gawsoch chi a thagiwch ni yn eich lluniau ar dudalen Facebook Cadwch Sir y Fflint yn Daclus: https://www.facebook.com/KeepFlintshireTidy



**Gadewch olion pawennau yn unig.....**